

Cofion a Chyfarchion

- Parhawn i gofio yn ein gweddiâu am y rhai sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn. Yn dilyn anffawd, mae Helen Pritchard (Llansannan) yn Ysbyty Glan Clwyd ac wedi cael llawdriniaeth yn ystod yr wythnos, ac mae John H. Williams (Llanefydd) yn parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Da deall bod Janice Williams (Llansannan) wedi cael dod adref o'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth, a bu'n rhaid i Rhys Evans (Saron) hefyd dreulio noson yn yr ysbyty yn dilyn anffawd. Anfonwn ein cofion at y pedwar gyda'n dymuniadau gorau am adferiad buan.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ann Davies (Nantglyn) a Neil Edwards fydd yn priodi dydd Sadwrn nesaf. Gweddiwn y cânt ddiwrnod cofiadwy, ac y byddant yn profi bendithion lu i'r dyfodol.

Derbyn yn Aelodau

Os ceir ymateb, mae bwriad i gychwyn sesiynau paratoi ym mis Medi ar gyfer ieuencid 15+ sydd â diddordeb i ddod i gyflwyniad syml i Gristnogaeth ac, os byddan nhw'n awyddus, i gael eu derbyn yn aelodau yn eu heglwys leol wedi hynny. Felly, os oes diddordeb, cysylltwch â Rhodri, Gwion neu Mair cyn diwedd mis Gorffennaf, os gwelwch yn dda.

I ddod

- **ASTUDIAETH FEIBLAIDD I'R FRO** yn Llanefydd nos Iau, Gorffennaf 6ed am 7.30.
- **DATHLU 150 MLYNEDD ERS SEFYDLU CAPEL LLANEFYDD A 10 MLYNEDD ERS ADDASU'R ADEILAD** – Oedfa Deuluol bore Sul, Gorffennaf 9fed am 10.30 o dan arweiniad y Parch. Ddr Rhodri Glyn. Cinio'r dathlu yn dilyn yn y neuadd. Os oes gennych luniau neu atgofion, a fydddech gystal â'u rhannu efo un o'r blaenoriaid erbyn Gorffennaf 1af os gwelwch yn dda?

Darlleniad Wythnos Nesaf

Luc 11:5-10 (BCND tud.78 / BCN tud.71)

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 582644 📱 07849 591163

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 25^{ain} Mehefin 2017

Darlleniad y Dydd

Genesis 15:1-6

(BCND tud.12 / BCN tud.11)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i bob un ohonoch i oedfaon arbennig Sul y Fro heddiw. Bydd yn braf iawn cael croesawu Steffan Morris yn ôl i'w ardal enedigol, ac edrychwn ymlaen at amser bendithiol yn rhoi clod i'r Arglwydd gyda'n gilydd. Mae Steff a Gwenno ar hyn o bryd wrthi'n cychwyn gwaith Cristnogol newydd yn ardal Llandysul – cawn glywed mwy am hynny gan Steff ei hun yn ein hoedfa o fawl heno, dewch yn llw!

Byddwch yn onest – faint o gwyno fu acw dros yr wythnos ddiwethaf oherwydd y tywydd? Nid yn gymaint yn ystod y dydd, ond wrth iddi ddod yn amser clwydo? Oni bai fod gennych system dymheru (*air conditioning* yn Gymraeg!) yn eich tŷ, gallaf ddychmygu llawer o droi a throsi anghyfforddus a grwgnach blin gan ei bod mor glos. Felly'n union yr oeddwn i, sydd ddim yn enwog am fwynhau gwres, ond y peth mwyaf rhwystredig oedd gorwedd yn fy ngwely'n meddwl, 'does 'na ddim gobaith i mi gysgu yn y gwres 'ma'!

Beth bynnag a ddywedwn am ein tuedd i gwyno am wahanol elfennau o'r tywydd, profiad digon cyffredin yw'r ymateb diamynedd hwnnw o feddwl na all pethau newid oherwydd y sefyllfa yr ydym ynnddi. Gall ddigwydd i unigolion ac i sefydliadau (gan gynnwys eglwysi sydd wedi colli gobaith), ac fe ddigwyddodd i nifer o gymeriadau cyfarwydd y Beibl hefyd. Yn Genesis 15 mae Abram yn bwrw ei fol wrth i Dduw siarad ag ef mewn gweledigaeth. Neges o gysur a gobaith y mae'r Arglwydd yn ei roi iddo: "Paid bod ag ofn Abram. Fi ydy darian di. Byddi'n derbyn gwobr fawr" (15:1), ond parhau i rwgnach y mae Abram. Does ganddo ddim plant, felly sut y gall dderbyn gwobr fawr ac etifeddion? Unwaith yn rhagor, mae Duw yn amyneddgar ac yn rhoi addewid iddo fel y gwnaeth fwy nag unwaith yn Genesis 12:1-3 ac 13:15-17.

Yn y pen draw, 'credodd Abram yr Arglwydd a chafodd ei dderbyn i berthynas iawn gyda ef.' (15:6) Mae'r adnod hon yn allweddol a dyma'r tro cyntaf i'r gair 'credu' ymddangos yn y Beibl. Ceir nifer o gyfeiriadau at yr adnod yn y Testament Newydd sy'n egluro un o wirioneddau canolog Cristnogaeth: Duw sy'n datgan ein bod ni'n gyfiawn, hynny yw yn cael ein derbyn i berthynas iawn gydag Ef, ac nid oes neb yn ennill yr hawl hon trwy ein hymdrechion. 'Trwy ras yr ydych wedi eich achub, trwy ffydd. Nid eich gwaith chwi yw hyn; rhodd Duw ydyw' (Effesiaid 2:8). Ac felly wrth i ni gredu yn had Abraham, Iesu Grist (Galatiaid 3:16), yr Un sy'n ein glanhau o bob anghyfiawnder, gallwn ninnau ddod i berthynas iawn â Duw heddiw hefyd, a thrwy hynny dderbyn y wobwr o fod yn gyd-etifeddion â Christ am byth (Rhufeiniaid 8:17).

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled



Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 25^{ain}

Sul y Fro

yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan
yng nghwmni

Steffan Morris

(Cyn-weithiwr Plant, Ieuentid a Theuluoedd Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy, sydd bellach yn fyfyrwr ar Raglen Genhadol Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac wedi cychwyn gwaith Cristnogol newydd yn ardal Llandysul, Ceredigion.)

Fe wneir casgliad yn ystod y ddwy oedfa tuag at waith y Samariaid.

Parcio: Er diogelwch, gofynnwn i chi beidio parcio o flaen y capel, os gwelwch yn dda, ond bydd digonedd o le parcio naill ai ym maes parcio'r capel, ym maes parcio'r Ganolfan neu ar ochr y ffordd yn arwain at y Ganolfan.

Cadair Olwyn: Os dymunwch ddefnyddio'r gadair olwyn sydd yn y capel, rhowch wybod i un o'r rhai fydd yn y cyntedd yn eich croesawu.

I-Grist am 10:30

Oedfa'r bore

i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth.
Yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i'r Brenig i gael picnic ac i gymdeithasu, tra bydd cyfle i'r plant fwynhau y maes antur sydd newydd agor yno.
(Os na fydd y tywydd yn ffafriol, mae trefniadau wedi eu gwneud i fynd i'r Ganolfan yn Llansannan i gael ein picnic, a bydd gemau wedi eu trefnu i'r plant.)

Oedfa o Fawl am 6:00

Oedfa'r hwyr

i holl eglwysi'r Ofalaeth
pryd byddwn yn dathlu
tri chan mlwyddiant geni
William Williams, Pantycelyn,
un o emynwyr mwyaf Cymru,
ac yn rhoi sylw arbennig
i'w emynau bendigedig.

Croeso i bawb!

- Mawrth – 27^{ain} ➤ **Torri Syched y dynion** – seiat yn Heulfryn am 7.30.
Mercher – 28^{ain} ➤ **Taith Gerdded i'r Ofalaeth** – Cychwyn o fuarth Capel Henllan am 6.30. Os bydd y tywydd yn anffafriol, edrychwch ar dudalen flaen gwefan yr Ofalaeth neu cysylltwch â Mair i wybod fydd y daith ymlaen ai peidio. Croeso i bawb!
Iau – 29^{ain} ➤ **Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint** yn cyfarfod am 7.00 yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug. Yn dilyn Arolwg yr Undeb o sefyllfa y Cyfundebau, bydd trafodaeth ar ein sefyllfa fel y medrwn gadarnhau a chryfhau ein gwaith, a darganfod y ffordd orau i'r Cyfundeb fedru symud ymlaen.

Y Fro (parhad)

- Gwener – 30^{ain} ➤ **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Heulfryn, Llansannan o 5.00 – 6.30.
Sadwrn – 1^{af} ➤ **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yng Nghapel Clwyd Street, Y Rhyl** (sylwch ar y newid lleoliad). Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod am 3.00, oedfa gyhoeddus am 4.30 i longyfarch blaenoriaid am hir wasanaeth, ac eisteddiad yr Henaduriaeth am 5.30 yr hwyr.
Sul nesaf – 2^{il} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd y Parch. Ddr Andras Iago yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul nesaf – 2^{il} ➤ Bydd y Parch. Ddr Andras Iago yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan a Nantglyn

- Llun – 26^{ain} ➤ Cynhelir cyfarfod o'r Pwyllgor Adeiladau yn Llansannan am 7.30.
Mercher – 28^{ain} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW**, os gwelwch yn dda.
Sul nesaf – 2^{il} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul nesaf – 2^{il} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul nesaf – 2^{il} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul nesaf – 2^{il} ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghewn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd, a'r oedolion am 11.15.